# Hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu’r broses gynllunio gydag unigolion. Mae hyn yn cynnwys asesu dewisiadau ac anghenion unigolion mewn perthynas â'u gofal neu gymorth, cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau gofal neu gymorth, a chyfrannu at adolygu'r cynlluniau hyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth i unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth ar gyfer cynllunio gofal neu gymorth
3. asesu dewisiadau, anghenion a dyheadau unigolion
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi’r canlyniadau gofal neu gymorth ar gyfer eu cynlluniau personol
5. cefnogi annibyniaeth unigolion i sicrhau ymreolaeth, dewis a diogelwch
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi’r risgiau posibl a chefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
7. cyflawni’r gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth rydych chi’n gyfrifol amdanynt
8. sicrhau bod cynlluniau gofal neu gymorth ar gael i unigolion ac i eraill
9. monitro a nodi newidiadau yng ngofal neu gymorth unigolion
10. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a diweddaru cynlluniau gofal neu gymorth i fynd i’r afael â newidiadau
11. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer y broses o gynllunio gofal neu gymorth
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y broses o gynllunio gofal neu gymorth
2. sut mae ystyried dewisiadau ac anghenion unigolion wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal neu gymorth
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y broses o gynllunio gofal neu gymorth
4. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar y broses o gynllunio gofal neu gymorth
5. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
6. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i gymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
7. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
8. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i gymryd cyfrifoldeb dros hybu eu hiechyd, eu llesiant a'u gofal eu hunain
9. dulliau i weithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddarganfod beth sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau a pham
10. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y broses o gynllunio gofal neu gymorth
11. sut mae asesu risg a chefnogi cymryd risgiau cadarnhaol yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
12. pwysigrwydd diweddaru cynlluniau gofal neu gymorth i adlewyrchu newidiadau o ran anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau unigolion
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i gynllunio adolygiadau a nodi, mesur a gwerthuso canlyniadau
15. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynllunio gofal neu gymorth
16. damcaniaethau sy’n berthnasol i’r broses o gynllunio gofal neu gymorth
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth

18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth
20. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod y broses o gynllunio gofal neu gymorth
21. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu’r broses o gynllunio gofal neu gymorth, a sut i fynd i'r afael â hyn
22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu yn y broses o gynllunio gofal neu gymorth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu'r broses o gynllunio gofal neu gymorth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD35 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynllunio gofal, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |